View metadata, citation and similar papers at core.ac.uk
brought to you by CORE
provided by Digital Education Resource Archive

# Arweiniad atodol:
gwrando ar staff

Hydref 2017

Estyn

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- dysgu oedolion yn y gymuned
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/y cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw’r diben?**

Mae hyn yn darparu rhagor o arweiniad i arolygwyr ei ddefnyddio ochr yn ochr ag arweiniad y sector ar gyfer arolygu

**Ar gyfer pwy y mae wedi ei fwriadu?**

Ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, lleoliadau nas cynhelir a’r sector Ôl-16/AB

**Pryd y dylid dechrau defnyddio’r arweiniad?**

Medi 2017

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Arweiniad atodol** | **1** |
| **Rhesymwaith** | **2** |
| **Trefniadau i arolygwyr wrando ar athrawon** | **3** |
| **Trefniadau i arolygwyr wrando ar staff cymorth** | **3** |
| **Cwestiynau Cyffredin** | **4** |
| **Atodiadau** | **6** |

## Arweiniad atodol

Y dogfennau allweddol Estyn sy'n rhoi arweiniad ar weithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector.  Fodd bynnag, rydym yn llunio arweiniad atodol hefyd i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu rhai egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr.  Maent yn ymwneud â phob sector y mae Estyn yn ei arolygu, oni bai bod y dogfennau'n datgan eu bod ar gyfer sector penodol.  Maent yn ymhelaethu ar agweddau penodol ar addysg/hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr.  Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drwyadl wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad.  Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth iddynt ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i gael dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn hefyd.  Gallent fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd o ran arfarnu agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu'n gadarnhaol, i sicrhau mai'r profiad dysgu proffesiynol gorau posibl fydd hwn ar gyfer y staff ym mhob darparwr
- Bydd arolygwyr yn arolygu ar sail dull sy'n cael ei arwain gan y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol, graff
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd â phosibl
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymateb i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn defnyddio ystod gynyddol yr adnoddau a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol yn unig ym mhob darparwr

## Rhesymwaith

Mae gwrando ar safbwyntiau ystod o staff ar wahanol lefelau yn ffordd effeithlon ac effeithiol i gael ystod eang o dystiolaeth arolygu.  Dylai arolygwyr wrando ar staff er mwyn deall pa mor dda y mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo pob dysgwr i wneud cynnydd da.  Dylent wrando'n ofalus ar ba mor dda y mae staff yn deall a gwerthfawrogi blaenoriaethau strategol y darparwr ac yn llunio barn ynglŷn â'r modd y maent yn mynd ati i'w rhoi ar waith.

Dylai arolygwyr gasglu tystiolaeth uniongyrchol gan athrawon am eu harfer reolaidd yn yr ystafell ddosbarth trwy siarad ag athrawon yn eu hystafelloedd dosbarth.  Bydd hyn yn helpu athrawon i ddod o hyd i dystiolaeth, er enghraifft samplau o waith dysgwyr, i gefnogi eu safbwyntiau ac esbonio materion ymhellach gydag arolygwyr.

Trwy gyfweliadau ag athrawon, bydd arolygwyr yn gallu gweld pa mor dda y mae athrawon yn sicrhau eu bod yn herio dysgwyr o bob gallu i wneud cynnydd yn eu dysgu, gweddu gwaith arfaethedig i fannau cychwyn unigol dysgwyr ac ystyried eu rhwystrau rhag dysgu.  Bydd arolygwyr yn gallu gweld pa mor dda y mae staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau cofnodedig y darparwr yn eu hystafelloedd dosbarth, er enghraifft trwy esbonio a dangos enghreifftiau o'u hadborth i ddysgwyr a strategaethau asesu.

Gallai fod yn briodol hefyd i arolygydd wrando ar safbwyntiau staff cymorth am eu rolau, eu gwaith, a'r hyfforddiant a'r cymorth a gânt.  Bydd hyn yn helpu arolygwyr i gael amcan o'r cyfraniad a wna staff cymorth at wella deilliannau penodol dysgwyr, a chyflawni nodau a thargedau'r darparwr.

Yn ychwanegol, dylai'r trafodaethau ddarparu cyfle pwrpasol i arolygwyr archwilio rôl a swyddogaeth arweinwyr canol, a gwerth gweithgareddau hunanarfarnu a chynlluniau gwella.  Dylai arolygwyr archwilio perthnasedd a rheoleidd-dra adborth a hyfforddiant staff, a'r cymorth a gaiff ymarferwyr ystafell ddosbarth gan arweinwyr, er enghraifft pan fyddant yn wynebu anawsterau yn eu gwaith.  Bydd y wybodaeth y mae arolygwyr yn ei chasglu gan staff yn ddefnyddiol wrth ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwella ansawdd, ysgogi newid a gweithredu'n gynaliadwy.

Dylai'r trafodaethau hyn ddisodli llawer o'r cyfweliadau gydag arweinwyr a gynhelir o dan y fframwaith arolygu blaenorol.  Yn y gorffennol, roedd cyfweliadau'n rhoi cyfleoedd i staff (arweinwyr canol, yn aml) ddisgrifio'n helaeth yr hyn y maent wedi'i wneud er mwyn gwneud gwelliannau yn eu maes cyfrifoldeb.  Bydd cynnal cyfweliadau â staff ar bob lefel yn galluogi arolygwyr i weld effaith arweinwyr a rheolwyr ar lefel yr ystafell ddosbarth.  Bydd cyfweliadau ag ystod o staff yn darparu model o'r gwaelod i fyny yn hytrach nag o'r brig i lawr ar gyfer casglu tystiolaeth o effaith arweinwyr a rheolwyr.

## Trefniadau i arolygwyr wrando ar athrawon

Mae'n bwysig fod y trafodaethau/cyfweliadau arfaethedig yn cynnwys ystod o athrawon yn y darparwr.  Dylai'r Arolygydd Cofnodol ddewis staff sydd ar wahanol gyfnodau yn eu gyrfa addysgu.  Dylent ystyried hyd gwasanaeth yr unigolyn yn y darparwr, ei brofiad a'i radd cyflog, ynghyd ag unrhyw gyfrifoldebau rheoli llinell, sefydliadol neu bwnc, a'u hymrwymiadau addysg neu fugeiliol yn yr amserlen.  Er enghraifft, gallai'r Arolygydd Cofnodol benderfynu cynnwys athro newydd gymhwyso, athro profiadol sydd wedi ymuno â'r darparwr yn ddiweddar, athro rhan-amser ac arweinydd bugeiliol neu arweinydd canol.

Dylai un arolygydd wrando ar athro unigol yn ystod pob sesiwn drafod.

Dylai Arolygwyr Cofnodol ystyried unrhyw gwestiynau sy'n dod i'r amlwg trwy eu dadansoddiad o'r holiadur i staff cyn yr arolygiad.  Dylent ystyried faint o gydbwysedd a roddir i wrando ar ystod y rhanddeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, staff, llywodraethwyr a rhieni, yn ystod yr arolygiad er mwyn sicrhau bod sail y dystiolaeth yn cefnogi arfarniadau trylwyr a dilys.

Yn unol â gweithgarwch arolygu, dylai arolygwyr fod yn ystyriol, yn gwrtais a meddylgar, yn enwedig ble gallai staff unigol fod yn bryderus ynglŷn â'r drafodaeth.  Dylai arolygwyr wneud popeth posibl i dawelu meddwl yr aelod staff.  Er enghraifft, dylid cynnal y cyfweliad yn ystafell ddosbarth yr athro, a dylai ganolbwyntio ar yr hyn y mae dysgwyr yn ei wneud a'i gyflawni, a'r cyfraniad a wna'r athro at ddysgu effeithiol, yn hytrach na cheisio canfod a barnu methodoleg yr athro.

Dylai arolygwyr ddefnyddio cwestiynau penagored fel bod yr athro'n cael digon o gyfleoedd i siarad yn rhwydd, yn hytrach na gorfod ymateb i restr o gwestiynau cyfweliad penodol.  Awgrymir sbardunau yn ddiweddarach yn y papur hwn, ond dylai arolygwyr fynd i'r afael â chwestiynau sy'n dod i'r amlwg, pan fo'n briodol.  Cyhyd ag y bo modd, dylai'r cyfweliad fod yn ddeialog rhwng yr arolygydd a'r athro.  Dylai arolygwyr annog athrawon i ddefnyddio enghreifftiau o waith dysgwyr, neu'u nodiadau cynllunio neu asesu, i gefnogi'r drafodaeth.  Dylai cydbwysedd y sgwrs ffafrio'r athro yn glir.

Dylai arolygwyr ei gwneud yn glir nad oes unrhyw ddisgwyliad y dylai'r athro siarad ar ran ei gydweithwyr.

## Trefniadau i arolygwyr wrando ar staff cymorth

Yn dibynnu ar faint a chymeriad y darparwr, a'r cwestiynau sy'n dod i'r amlwg cyn yr arolygiad, gallai'r Arolygydd Cofnodol fod eisiau casglu barn staff cymorth hefyd.  Er enghraifft, gallai fod blaenoriaeth i wella yn gysylltiedig â datblygu rôl staff cymorth, neu gallai'r holiadur i staff cyn yr arolygiad godi cwestiynau sy'n dod i'r amlwg ynglŷn â manteisio ar hyfforddiant priodol.

Fel arfer, gwahoddir carfan o staff cymorth i siarad ag arolygydd fel grŵp.  Gallai'r Arolygydd Cofnodol benderfynu y dylai'r arolygydd lleyg gwblhau'r dasg hon gan

ofyn i aelod arall o'r tîm siarad â staff cymorth.  Os bydd yr Arolygydd Cofnodol yn cynllunio cyfarfod o'r fath, dylai drafod gyda'r enwebai beth yw'r amser a'r lle mwyaf cyfleus.  Dylai'r Arolygydd Cofnodol ystyried dyletswyddau amrywiol ac oriau rhan-amser llawer o staff cymorth wrth drefnu'r amser ar gyfer cyfarfod o'r fath.  Gallai fod yn briodol gwahodd unrhyw staff cymorth sy'n gallu mynychu, a phwysleisio bod croeso i unrhyw staff eraill siarad yn fras ag arolygydd unigol ar adeg sy'n gyfleus i'r naill a'r llall o gwmpas y darparwr, os hoffent wneud hynny.

## Cwestiynau Cyffredin

### Faint o rybudd am y cyfarfod ddylai arolygwyr ei roi i athrawon unigol?

Dylid rhoi digon o rybudd i staff ddelio ag unrhyw drefniadau neu ymrwymiadau personol er mwyn iddynt allu mynychu'r drafodaeth, ond nid cymaint o rybudd fel eu bod yn teimlo rheidrwydd i wneud gwaith paratoi diangen.  Fel arfer, bydd yr Arolygydd Cofnodol yn rhoi gwybod i'r enwebai am fanylion y cyfweliad ag athrawon yn y bore ar ddiwrnod y cyfweliadau.  Er enghraifft, os bwriedir cynnal sesiynau gwrando ar staff ar ôl yr ysgol ar y dydd Mawrth, dylai'r Arolygydd Cofnodol roi gwybod i'r enwebai mor gynnar ag y bo modd ar y bore dydd Mawrth.  Dylai'r enwebai nodi i'r Arolygydd Cofnodol cyn gynted ag y bo modd os bydd gan aelod unigol o staff anhawster personol mynychu cyfarfod mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft o ganlyniad i drefniadau gofal plant neu deithio.

### Pryd a ble dylid cynnal y cyfarfod?

Dylai Arolygwyr Cofnodol weithio gydag arweinwyr y darparwr i nodi'r adeg orau ar gyfer trafodaethau â staff.  Mae yn syth ar ddiwedd y diwrnod dysgu yn aml yn adeg dda.  Ni ddylai Arolygwyr Cofnodol drefnu trafodaethau ar gyfer amseroedd egwyl neu amseroedd cinio athrawon.  Fel arfer, dylid cynnal y drafodaeth yn ardal addysgu arferol yr athro i sicrhau bod gwaith dysgwyr a nodiadau cynllunio ac asesu'r athrawon eu hunain ar gael yn hawdd.  Dylai arolygwyr gadw trafodaethau yn gryno a ffocysedig.  Dylai tua 30-45 munud fod yn ddigon, ac mewn rhai achosion, ni ddylai'r drafodaeth gymryd mor hir â hynny.

### Beth ddylai arolygwyr ei gofnodi yn eu FfF?

Dylai arolygwyr gofnodi nodiadau cyfoes, byr ac arfarnol o'r cyfweliad yn eu FfF.  Mae pwyntiau bwled yn ddelfrydol.  Wedi iddynt fynd yn ôl i'r ystafell sylfaen, dylai arolygwyr dacluso eu nodiadau i sicrhau eu bod yn grynodeb arfarnol, nid yn ddisgrifiad gair am air.  Dylent gopïo a gludo eu nodiadau yn y mannau perthnasol ar eu FfF Mewnbwn, er enghraifft addysgu (3.1), profiadau dysgu (3.2) ac arweinyddiaeth (5.1).

### Mae'r athro yn dweud wrtha' i eu bod wedi cael cyfarwyddyd gan y rheolwyr i beidio â rhoi sylwadau ar faterion penodol

Cofnodwch y wybodaeth hon yn eich FfF Mewnbwn, a thynnu sylw'r Arolygydd Cofnodol ati.  Mae gwrando ar staff yn gyfle i staff ar bob lefel gyfleu eu safbwyntiau proffesiynol wrth arolygwyr.  Dylai'r Arolygydd Cofnodol dynnu sylw'r enwebai at hyn hefyd, a chyfeirio'r enwebai at adran 'Disgwyliadau darparwyr' yn y llawlyfr arweiniad arolygu.

**Beth ddylwn i ei wneud os bydd athro'n dechrau trafod y ffordd y mae'n rheoli perfformiad?**

Gall arolygwyr wrando ar ddisgrifiadau'r athro o'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad, a dylent wneud hyn, ond ni ddylent holi am gyfraddiadau, targedau na deilliannau unigolyn.  Ni ddylent edrych ar ddogfennau rheoli perfformiad gydag enwau ynghlwm, er enghraifft wrth sgwrsio ag athrawon unigol.  Fodd bynnag, gallai arweinwyr ddewis rhannu ffurflenni rheoli perfformiad gwag neu olygedig gydag arolygwyr, fel rhan o drafodaeth ehangach, fel bod arolygwyr yn deall yn llawn y system gyffredinol  sy'n gweithredu.

**Beth ddylai arolygwyr ei wneud os bydd ganddynt bryderon am les staff o ganlyniad i wrando ar athrawon neu staff cymorth?**

Dylai arolygwyr godi'r mater yn y cyfarfod tîm a gyda'r Arolygydd Cofnodol, gan ei bod yn bwysig cadarnhau graddau'r pryder.  Bydd yr Arolygydd Cofnodol yn dewis y ffordd orau o weithredu i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r tîm.  Bydd yr Arolygydd Cofnodol yn rhannu pryderon, fel y bo'n briodol, er enghraifft gydag uwch arweinwyr, gydag arolygydd cyswllt yr awdurdod lleol neu drwy'r adroddiad arolygu.

**Beth ddylai Arolygydd Cofnodol ei wneud os bydd athrawon unigol/staff yn gofyn am gyfweliad gydag arolygydd?**

Yn gyntaf, dylai'r Arolygydd Cofnodol gadarnhau'r rheswm dros y cais am gyfweliad, h.y. p'un a yw i gymryd rhan yn y cyfweliadau arferol gyda staff neu p'un a yw'r aelod o staff yn dymuno codi materion eraill.  Os yw hyn yn cynnwys y cyfweliadau arferol gyda staff, dylai'r Arolygydd Cofnodol nodi nad oes gofyniad ar y tîm arolygu i gyfweld â phob un o'r staff neu gytuno i gyfweld ag unrhyw aelod o staff a allai wirfoddoli.  Os yw hyn er mwyn codi mater penodol, gallai'r Arolygydd Cofnodol benderfynu trefnu cyfweliad byr gyda'r aelod o staff, neu o ganlyniad i bwysau amser ar y tîm arolygu, gallai ofyn iddynt ysgrifennu nodyn byr am eu pryderon i'r Arolygydd Cofnodol ei ystyried.  Dylai'r Arolygydd Cofnodol nodi bod yr arolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar y dysgwyr ac effaith y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar eu cynnydd.  Ni ddylai arolygwyr ymchwilio i achwyniadau unigol staff.

**Pwy sy'n gallu mynychu cyfarfod y staff cymorth?**

At ddiben y cyfarfod, mae arolygwyr yn ystyried bod 'staff cymorth' yn cynnwys unrhyw un a gyflogir yn uniongyrchol gan y darparwr sydd â chontract nad yw'n cyfeirio at swydd addysgu neu arwain.  Bydd arolygwyr yn ystyried medrau a chefndiroedd amrywiol y staff cymorth, er enghraifft y rheiny sy'n addysgu dosbarthiadau llawn fel cynorthwywyr addysgu lefel uwch a goruchwylwyr cyflenwi, neu'n delio'n uniongyrchol â dysgwyr sy'n eithriadol o agored i niwed a'u rhieni ynglŷn â phresenoldeb, gwaharddiadau neu agweddau ar les.  Byddant hefyd yn ystyried gwahanol rolau a setiau medrau staff cymorth sy'n gweithio mewn swyddi gweinyddol, neu fel technegwyr.  Dylai arolygwyr bob amser fod yn ymwybodol fod telerau, amodau cyflogaeth neu atebolrwydd staff cymorth yn wahanol i rai athrawon.

## Atodiad A

**Cwestiynau posibl ar gyfer athrawon**

- A allwch chi ddweud wrthyf yn fras am eich dosbarth(iadau) eleni?
- Pa fath o gynnydd y mae grwpiau amrywiol o ddysgwyr wedi'i wneud? – ADY, disgyblion mwy abl a thalentog, SIY?
- Beth fu eich llwyddiannau mwyaf eleni?  A oes gennych chi unrhyw beth gyda chi y gallwch chi ei ddangos i mi, a dweud wrthyf amdano?
- Sut ydych chi'n defnyddio'r dystiolaeth rydych yn ei gweld yn llyfrau dysgwyr i gynllunio ar gyfer eu camau nesaf?
- A oes unrhyw rwystrau neu heriau penodol wedi bod eleni y bu'n rhaid i chi eu goresgyn?
- Sut ydych chi wedi delio â nhw?
- Beth yw blaenoriaethau presennol y darparwr?  Pa wahaniaeth y mae hynny'n ei wneud i chi yn eich ystafell ddosbarth gyda'ch dysgwyr?
- Pa fath o hyfforddiant ydych chi wedi ei gael i helpu i chi ddelio â'r blaenoriaethau hyn?  Beth sydd wedi bod yn hynod effeithiol o ran eich helpu i weithio tuag at y blaenoriaethau hyn, yn eich barn chi?
- A ydych chi wedi cael cyfleoedd i rannu unrhyw ran o hyn gyda chydweithwyr yn y darparwr hwn ac mewn darparwyr eraill?  (Fel arall, a ydych chi wedi bod yn rhan o rannu'r arfer hon gan gydweithwyr eraill mewn unrhyw ffordd?)
- Wrth edrych tua'r dyfodol, beth allai'r heriau fod gyda'r dysgwyr/dosbarthiadau hyn, yn eich barn chi?

## Atodiad B

**Cwestiynau posibl ar gyfer cyfarfod â chynorthwywyr addysgu**

- Beth yw cryfderau'r darparwr hwn?
- Sut ydych chi'n gwybod beth sy'n digwydd yn y darparwr?  Sut ydych chi'n cymryd rhan mewn cynllunio a threfnu'r addysgu a'r dysgu o ddydd i ddydd?
- Sut ydych chi'n delio â phlant sydd â phroblemau?  Pa gymorth ydych chi'n ei gael – gan bwy?
- A oes unrhyw rwystrau neu heriau penodol wedi bod yn ddiweddar y bu'n rhaid i chi eu goresgyn?  Sut ydych chi wedi delio â nhw?
- Beth yw blaenoriaethau presennol y darparwr?  Pa wahaniaeth y mae hynny'n ei wneud i chi yn yr ystafell ddosbarth gyda dysgwyr?
- Pa fath o hyfforddiant ydych chi wedi ei gael yn ddiweddar?  Beth sydd wedi bod yn hynod effeithiol, yn eich barn chi?
- A ydych chi wedi cael cyfleoedd i arsylwi pobl eraill yn gwneud gwaith tebyg i chi – yma neu mewn darparwr arall?  Beth ydych chi wedi ei ddysgu o hyn?